Home Office

NPCC
National Police Chiefs' Council

# Gofynion Hysbysu Troseddwyr Rhyw: Mecanwaith Adolygu

## Beth yw fy hawliau fel dioddefwr?

Gorffennaf 2017

## Contents


Beth yw'r gyfraith? 2

Pam all troseddwyr ymgeisio am adolygiad o'u gofynion hysbysu? 2

Sut mae'r penderfyniad yn cael ei wneud? 3

Beth mae hyn yn ei olygu i mi fel dioddefwr neu oroeswr trosedd ryw? 3

Cwestiynau Cyffredin 4

- Pryd y gall troseddwr ymgeisio am adolygiad? 4
- Beth mae'n ei olygu os daw enw'r troseddwr oddi ar y gofrestr? 4
- Pa bryd y bydd troseddwr ar y gofrestr am oes yn dod oddi ar y gofrestr? 4
- Beth os yw'r troseddwr yn amodol ar Orchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) neu Orchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO)? 4
- Pa fewnbwn sydd gen i? 4
- Sut ydw i'n gwneud datganiad? 4
- A fydd fy natganiad yn rhwystro'r troseddwr rhag dod oddi ar y gofrestr? 5
- Pa bryd y gallaf gyflwyno fy nhystiolaeth? 5
- Sut fydd yr heddlu yn gwybod sut i gysylltu â mi? 5
- Beth sy'n digwydd os yw'r dioddefwr yn blentyn neu'n unigolyn sydd angen oedolyn priodol i'w gynrychioli? 5
- A all teulu'r dioddefwr gael mewnbwn? 5
- Rwyf bellach yn byw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon - a allaf i gofrestru? 5
- Beth os yw troseddwr yn gwneud cais o'r Alban neu Ogledd Iwerddon? 6
- Nid wyf eisiau mynd i'r swyddfa heddlu, a oes ffordd arall o gofrestru fy manylion? 6
- Beth os nad wyf eisiau cofrestru fy manylion o gwbl? 6
- Rwyf wedi cofrestru fy manylion ond rwyf wedi newid fy meddwl? 6
- Pa ddeddf sy'n ymdrin â'r mecanwaith adolygu? 6
- Ble mae cefnogaeth ar gael i mi? 6
- Ble y gallaf gael copi o'r daflen hon? 6
- Mae gennyf fwy o gwestiynau. 7

Sefydliadau cymorth a all helpu 8

Slip Cofrestru gyda'r Heddlu 9

Dull Mecanwaith - Llythyr Hysbysu Dioddefwr Enghreifftiol 10

# Beth yw'r gyfraith?

- Mae gofyn i'r holl droseddwyr rhyw cofrestredig roi eu manylion personol i'r heddlu. Cyfeirir at y system hon yn aml fel 'cofrestr troseddwyr rhyw', ac mae'n gofyn i droseddwyr roi cofnod (ymhlith pethau eraill) i'w swyddfa heddlu lleol o'u: henw, cyfeiriad, dyddiad geni, a rhif yswiriant gwladol.
- Bydd am ba hyd y mae'r troseddwr yn amodol ar y gofynion yn amrywio gan ddibynnu ar y ddedfryd sydd wedi'i rhoi iddynt am y drosedd berthnasol.
- Mae gofyn i droseddwyr sydd wedi derbyn dedfryd o dros 30 mis o garchar i hysbysu am oes
- Serch hynny, gall y troseddwyr hyn gyflwyno cais i'r heddlu yn gofyn am gael eu tynnu oddi ar y gofrestr.
- Dim ond ar ôl iddynt fod ar y gofrestr am 15 mlynedd y gallant wneud cais (8 mlynedd ar gyfer y rheini dan 18 oed ar ddyddiad eu collfarnu neu'u dedfrydu - mewn rhai achosion mae math/hyd y ddedfryd yn effeithio ar hyd yr hysbysu) yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa.
- Bydd yr heddlu yn cynnal adolygiad a bydd wedi'i arwain gan yr ymgeisydd, sy'n golygu bod gofyn i droseddwr cymwys gyflwyno cais yn uniongyrchol i'r heddlu yn ceisio adolygiad o'r gofynion hysbysu amhenodol.
- Bydd angen i droseddwyr fodloni'r heddlu nad ydynt bellach yn peri risg i'r cyhoedd. Ni fydd y rheini y mae'r heddlu yn meddwl eu bod yn peri risg yn cael eu tynnu, a byddant yn parhau ar y gofrestr.
- **Bydd troseddwyr yn parhau ar y gofrestr am oes os oes angen.**

# Pam all troseddwyr ymgeisio am adolygiad o'u gofynion hysbysu?

- Yn 2010, canfu'r Goruchaf Lys y byddai bod yn amodol ar y gofynion hysbysu am oes heb unrhyw ddull o adolygu hyn yn anghydnaws â Chonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- O ganlyniad, ar 30 Gorffennaf 2012, diwygiwyd y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 gan y Gorchymyn Deddf Troseddau Rhyw 2003 (Adferol) 2012 i gyflwyno mecanwaith sy'n galluogi i droseddwyr rhyw cofrestredig sy'n amodol ar ofynion hysbysu am oes i ymgeisio i'r gofynion hynny gael eu hadolygu.
- Ni fydd troseddwyr rhyw yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn awtomatig; dim ond mecanwaith ble gall y troseddwr rhyw ymgeisio am adolygiad sy'n rhan o'r gorchymyn.

- Diogelu'r cyhoedd yw'r brif ystyriaeth. Mae'r Swyddfa Gartref yn teimlo'n hyderus ei bod wedi datblygu proses gadarn ac ymarferol sy'n rhoi diogelwch y cyhoedd yn gyntaf.

# Sut mae'r penderfyniad yn cael ei wneud?

- Mae'r heddlu yn cynnal adolygiad ac yn ystyried ystod o ffactorau penodol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarperir gan asiantaethau eraill.

# Beth mae hyn yn ei olygu i mi fel dioddefwr neu oroeswr trosedd ryw?

- Mae hyn yn golygu bod modd i'r sawl wnaeth gyflawni'r trosedd yn eich erbyn chi wneud cais i dynnu ei enw/ei henw o'r gofrestr trosedd rhyw.

- Dim ond os nad yw troseddwr o risg sylweddol i'r cyhoedd mwyach y bydd yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Pennir hyn ar ôl cynnal adolygiad cadarn, wedi'i arwain gan yr heddlu ac yn cynnwys pob asiantaeth berthnasol, er mwyn gallu ystyried darlun llawn o'r risgiau.

- Diogelu'r cyhoedd rhag niwed yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer y Swyddfa Gartref a'r heddlu, a bydd y troseddwyr hynny sy'n parhau i fod yn risg sylweddol yn parhau ar y gofrestr, a byddant yn gwneud hynny am oes os oes angen.

**Sut i gyflwyno gwybodaeth**

Mae gennych hawl i gyflwyno gwybodaeth a/neu dystiolaeth i'r heddlu os bydd troseddwr yn ymgeisio am adolygiad o'i ofynion hysbysu. Mae gofyn i'r heddlu ystyried eich gwybodaeth a/neu dystiolaeth fel ffactor wrth adolygu cais troseddwr.

Os hoffech chi gofrestru'ch manylion cyswllt gyda'r heddlu i'w galluogi i gysylltu â chi os bydd cais am adolygiad yn cael ei wneud, os gwelwch yn dda:

- llanwch y slip isod a'i rhoi i'ch swyddfa heddlu leol, neu,

- Anfonwch e-bost at eich heddlu lleol. Gallwch ddewis y cyfeiriad e-bost ar gyfer eich heddlu lleol o restr gysylltiadau'r heddlu sydd wedi'i lleoli yn: https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-notification-requirements-for-registered-sex-offenders-information-for-victims

Ni fydd yr heddlu yn cysylltu â chi os nad ydych chi'n cofrestru'ch manylion. Y rheswm dros hyn yw bod yn well gan rai dioddefwyr a goroeswyr beidio â chael gwybod os bydd troseddwr yn gwneud cais.

Os byddwch chi'n symud neu'n newid eich rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost, bydd angen i chi ddiweddaru'ch manylion gyda'r heddlu. Gallai methu rhoi'r manylion diweddaraf i'r heddlu eu hatal rhag gallu cysylltu â chi os bydd cais yn cael ei wneud.

# Cwestiynau Cyffredin

## Pryd y gall troseddwr ymgeisio am adolygiad?

Mae troseddwyr yn gallu ceisio adolygiad 15 mlynedd (8 mlynedd ar gyfer y rhai dan 18 oed) ar ôl dyddiad eu hysbysiad cyntaf yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa (o dan 18 oed ar ddyddiad collfarnu) ar gyfer y drosedd berthnasol (o dan rhai amgylchiadau fe allai gael ei gyfrifo ar y dyddiad dedfrydu).

## Beth mae'n ei olygu os daw enw'r troseddwr oddi ar y gofrestr?

Os daw troseddwr oddi ar y gofrestr, mae'n golygu na fydd y troseddwr bellach angen rhoi ei fanylion/ei manylion personol i'r swyddfa heddlu leol.

## Pa bryd y bydd troseddwr ar y gofrestr am oes yn dod oddi ar y gofrestr?

Ni fydd troseddwr yn dod oddi ar y gofrestr oni bai ei fod ef/ei bod hi yn gwneud cais ac, yn dilyn adolygiad cadarn, bod yr heddlu yn fodlon nad yw'n angenrheidiol, at ddiben diogelu'r cyhoedd rhag niwed rhywiol, i'r troseddwr barhau yn amodol ar y gofrestr. Daw troseddwr oddi ar y gofrestr cyn gynted ag y bydd yn cael gwybod am y penderfyniad.

## Beth os yw'r troseddwr yn amodol ar Orchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) neu Orchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO)?

Ni fydd troseddwyr yn gymwys i geisio adolygiad os byddant yn parhau yn amodol ar SHPO a SOPO. Rhaid i droseddwyr sy'n amodol ar SHPO a SOPO, sy'n amodol ar y gofynion hysbysu am oes, ymgeisio i'r llysoedd i'w clirio o'r gorchymyn cyn y gallant ymgeisio i ddod oddi ar y gofrestr.

## Pa fewnbwn sydd gen i?

Gall dioddefwyr/goroeswyr y drosedd sydd wedi arwain at y troseddwr ar y gofrestr roi datganiad neu dystiolaeth i'w ystyried pe bai cais yn cael ei wneud.

## Sut ydw i'n gwneud datganiad?

Os dymunwch chi roi datganiad neu dystiolaeth yn dilyn cais am adolygiad dylid ei wneud yn uniongyrchol i'r heddlu.

## A fydd fy natganiad yn rhwystro'r troseddwr rhag dod oddi ar y gofrestr?

Rhaid i'r heddlu ystyried nifer o ffactorau wrth wneud penderfyniad. Mae'r ffactorau hyn wedi'u nodi o fewn cyfraith ac yn cynnwys datganiadau gan ddioddefwyr/goroeswyr. Bydd datganiad gan ddioddefwr/goroeswr yn cael ei ystyried gan yr heddlu wrth asesu'r risg a bydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r holl wybodaeth arall a gasglwyd. Nid tystiolaeth a ddarperir gan ddioddefwr/goroeswr fydd yr unig ffactor sy'n penderfynu.

## Pa bryd y gallaf gyflwyno fy nhystiolaeth?

Gellir cyflwyno datganiad neu dystiolaeth unwaith y mae cais am adolygiad wedi'i wneud gan y troseddwr. Ni ddylai'r cyflwyniad hwn gael ei wneud ar y pwynt dedfrydu.

## Sut fydd yr heddlu yn gwybod sut i gysylltu â mi?

Mae'r daflen hon yn cynnwys slip cofrestru y gallwch ei lanw os hoffech chi gofrestru'ch manylion cyswllt gyda'r heddlu. Bydd hyn yn galluogi iddynt gysylltu â chi os bydd cais am adolygiad yn cael ei wneud. Os bydd cais am adolygiad yn cael ei wneud bydd yr heddlu yn cysylltu â chi unwaith y mae penderfyniad wedi'i wneud.

## Beth sy'n digwydd os yw'r dioddefwr yn blentyn neu'n unigolyn sydd angen oedolyn priodol i'w gynrychioli?

Os yw'r dioddefwr yn iau na 18 oed neu angen cefnogaeth ychwanegol, gall oedolyn priodol, megis rhiant neu 'oedolyn priodol' etholedig, ddarparu datganiad neu dystiolaeth ar ei ran.

## A all teulu'r dioddefwr gael mewnbwn?

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i'r heddlu wrth adolygu cais i ystyried rhai materion gan gynnwys "unrhyw...gyflwyniad neu dystiolaeth o risg o niwed rhywiol a gynigir gan y troseddwr perthnasol cymwys" (adran 91D(2)(m) Deddf Troseddau Rhyw 2003). Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth gan y dioddefwr/goroeswr o'r drosedd a arweiniodd y troseddwr at fod yn destun gofynion hysbysu am oes. Byddai hyn fel arfer ar ffurf datganiad ysgrifenedig. Gall yr heddlu hefyd ystyried gwybodaeth a ddarparwyd gan drydydd partïon ble y mae'n berthnasol i asesu risg.

## Rwyf bellach yn byw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon - a allaf i gofrestru?

Gallwch. Dylech gysylltu â'ch swyddfa heddlu lleol a fydd yn cofrestru'ch diddordeb ar y gronfa ddata genedlaethol ac yn ei drosglwyddo i'r heddlu perthnasol yng Nghymru a Lloegr.

## Beth os yw troseddwr yn gwneud cais o'r Alban neu Ogledd Iwerddon?

Os bydd troseddwr yn gwneud cais am adolygiad yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, byddant yn amodol ar y prosesau adolygu sydd wedi'u sefydlu yn yr ardaloedd hynny yn y DU. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffaith bod dioddefwr/goroeswr wedi cofrestru ei ddiddordeb/ei diddordeb gyda heddlu o fewn y DU, a bydd yr heddlu yn gwneud penderfyniad yn ymwneud ag ymgysylltiad y dioddefwr/goroeswr fesul achos.

## Nid wyf eisiau mynd i'r swyddfa heddlu, a oes ffordd arall o gofrestru fy manylion?

Gallwch anfon eich slip cofrestru trwy e-bost at eich heddlu lleol, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost o restr gysylltiadau'r heddlu sydd wedi'i lleoli yn:
https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-notification-requirements-for-registered-sex-offenders-information-for-victims

## Beth os nad wyf eisiau cofrestru fy manylion o gwbl?

Eich dewis chi yw a ydych chi'n dymuno cofrestru'ch manylion gyda'r heddlu. Nid yw'n orfodol i chi wneud hynny a gallwch ddewis peidio â gwneud hynny. Os na fyddwch chi'n cofrestru'ch manylion, ni fydd yr heddlu yn ceisio cysylltu â chi. Cofiwch fod modd i chi gofrestru'ch manylion gyda'r heddlu unrhyw bryd ond na fyddwch yn gallu cyflwyno tystiolaeth hyd nes y bydd cais yn cael ei wneud.

## Rwyf wedi cofrestru fy manylion ond rwyf wedi newid fy meddwl?

Gallwch ddewis dadgofrestru trwy gysylltu â'ch heddlu lleol a dweud wrthynt nad ydych chi'n dymuno i'r heddlu gysylltu â chi mwyach os bydd y troseddwr yn gwneud cais am adolygiad. Gallwch wneud hyn unrhyw bryd.

## Pa ddeddf sy'n ymdrin â'r mecanwaith adolygu?

Adrannau 91A-F Deddf Troseddau Rhyw 2003.

## Ble mae cefnogaeth ar gael i mi?

Bydd nifer o sefydliadau yn gallu darparu cefnogaeth arbenigol y mae ei angen arnoch chi. Rydym wedi cynnwys rhestr o'r sefydliadau hynny ar y dudalen nesaf.

## Ble y gallaf gael copi o'r daflen hon?

Mae'r daflen hon ar gael ar wefan eich heddlu lleol ac yn https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-notification-requirements-for-registered-sex-offenders-information-for-victims.

## Mae gennyf fwy o gwestiynau.

Os oes gennych gwestiynau pellach yn ymwneud â'r mecanwaith adolygu gallwch gysylltu â'r Swyddfa Gartref trwy e-bost at SexOffenderManagement@homeoffice.gsi.gov.uk neu fel arall, yn ysgrifenedig at y cyfeiriad isod:

**Y Swyddfa Gartref**
Uned Gyfathrebu Uniongyrchol
2 Marsham Street
London, SW1P 4DF

# Sefydliadau cymorth a all helpu

Mae nifer o sefydliadau all roi cyngor, gwybodaeth a chymorth i chi.

| | |
|---|---|
| **Canolfan Cyngor ar Bopeth** – mae'n cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim | 08444 111 444 (Lloegr)<br>03444 77 20 20 (Cymru)<br>www.adviceguide.org.uk |
| **Y Samariaid** – mae'n cynnig cymorth emosiynol cyfrinachol 24/7 i'r rheini sy'n profi anobaith, trallod neu deimladau hunanladdol | 116 123 (Rhadffôn 24 awr)<br>www.samaritans.org |
| **NSPCC** – Elusen i blant i ddod â cham-drin plant a chreulondeb i blant i ben | 0800 800 500 (Rhadffôn 24 awr)<br>www.nspcc.org.uk |
| **ChildLine** – mae'n cynnig cymorth a chyngor i blant | 0800 1111 (Rhadffôn 24 awr)<br>www.childline.org.uk |
| **Lucy Faithfull Foundation** – Elusen amddiffyn plant sy'n ymroi yn llwyr i ostwng risg o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol | 0800 1000 900 (Rhadffôn)<br>www.lucyfaithfull.org |
| **Cymorth i Ddioddefwyr** – elusen genedlaethol i ddioddefwyr trosedd yng Nghymru a Lloegr | 08 08 16 89 111<br>www.victimsupport.org.uk |
| **Voice UK** – yn cefnogi pobl gydag anableddau dysgu a phobl fregus eraill sydd wedi profi trosedd neu gam-drin | 080 880 28 686 |

# Slip Cofrestru gyda'r Heddlu

Gallwch fynd â'r slip hwn i'ch swyddfa heddlu lleol neu ei anfon trwy e-bost at eich heddlu lleol

---

Hoffwn gofrestru fy niddordeb i chi gysylltu â mi mewn achos o adolygiad o gofrestriad oes.

## Manylion achos

Cyfeirnod unigryw neu URN achos

Lleoliad y llys a dyddiad yr achos
(os yw'n hysbys)

Swyddog yr achos (os yw'n hysbys)

## Manylion personol

Enw

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn (symudol)
(cartref)

Cyfeiriad

Llofnod: ......................................................................................................................................

***Gwybodaeth i'r heddlu:*** *Os bydd y slip yn cael ei gyflwyno yn swyddfa'r heddlu cofiwch sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i Uned Diogelu'r Cyhoedd/Uned MOSOVO a bod y wybodaeth yn cael ei llwytho i ViSOR. Darparwch y slip cydnabyddiaeth isod. Os yw'r slip yn cael ei anfon trwy e-bost, a wnewch chi gydnabod trwy ateb y neges e-bost.*

***Os yw'n cael ei gyflwyno yn yr Alban:*** *Rhaid i chi adnabod yr heddlu perthnasol o fewn Cymru a Lloegr (trwy ViSOR) a'i anfon ymlaen yn unol â hynny.*

......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......✂......

## Cydnabyddiaeth

Diolch am ddychwelyd eich slip cofrestru. Os bydd eich manylion cyswllt yn newid neu os byddwch chi'n dymuno tynnu'ch diddordeb yn ôl, cysylltwch ag Uned Diogelu'r Cyhoedd/Uned MOSOVO yn eich swyddfa heddlu leol. Gallai methu â rhoi'r manylion diweddaraf i'r heddlu eu hatal rhag cysylltu â chi os bydd cais yn cael ei wneud.

Enw swyddog: ..............................................................................................................................

Rhif adnabod swyddog: ................................................................................................................

Dyddiad derbyn: ..........................................................................................................................

# Dull Mecanwaith - Llythyr Hysbysu Dioddefwr Enghreifftiol

**PREIFAT A CHYFRINACHOL**

Mr/s *Rhowch ddyddiad*

Annwyl Mr/s

**PARTHED: *(Nodwch enw'r troseddwr)***

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod *(nodwch enw'r troseddwr)* wedi bod yn Droseddwr Rhyw Cofrestredig am 15 mlynedd fel oedolyn neu 8 mlynedd fel un dan 18 oed (*dileer fel y bo'n briodol)* ac wedi gwneud cais i gael ei dynnu o'r gofynion hysbysu.

Yn 2010, canfu'r Goruchaf Lys y byddai bod yn amodol ar ofynion hysbysu am oes heb unrhyw fecanwaith i adolygu hyn yn anghydnaws â Chonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol.

O ganlyniad, ar 30 Gorffennaf 2012, diwygiwyd y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 gan y Gorchymyn Deddf Troseddwyr Rhyw (Adferol) 2012 i gyflwyno mecanwaith sy'n galluogi i droseddwyr rhyw cofrestredig sy'n amodol ar ofynion hysbysu am oes i ymgeisio i'r gofynion hyn gael eu hadolygu.

Fe wnaethoch chi ein hysbysu ni ar *(rhowch ddyddiad)* eich bod chi'n dymuno i'r Heddlu ymgynghori â chi cyn gwneud penderfyniad i dynnu'r troseddwr neu a ddylai ef/hi (*dileer fel y bo'n briodol*) barhau ar y gofynion hysbysu. Bydd yr heddlu yn ystyried eich gwybodaeth a/neu dystiolaeth fel ffactor wrth adolygu cais (rhowch enw).

Os hoffech chi siarad â ni neu roi datganiad cysylltwch naill ai trwy e-bost (*nodwch gyfeiriad e-bost perthnasol yr heddlu*) neu ffôn (*nodwch linell ffôn a/neu rif symudol fel y bo'n briodol*) neu drwy'r post (*rhowch gyfeiriad post llawn*).

Mae peth cyfyngiadau amser ar gyfer y broses hon, felly cysylltwch cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Uned MOSOVO
Diogelu'r Cyhoedd
Cwnstabliaeth Cumbria